CYLCHLYTHYR WYTHNOSOL YSGOL GLANRAFON'S *WEEKLY NEWSLETTER*

WYTHNOS YN DIWEDDU/*WEEK ENDING:* **21.06.19**

FFAIR HAF FFRINDIAU GLANRAFON – *FRIENDS OF GLANRAFON SUMMER FAYRE.*

Er i'r tywydd gael tipyn o effaith ar y gweithgareddau, cafwyd Ffair Haf lwyddiannus iawn bnawn Gwener diwethaf. Diolch i bawb a ddaeth ynghyd ar gyfer yr achlysur, ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y digwyddiad. Rhaid crybwyll y nawdd hael a dderbyniwyd gan wahanol gwmniau tuag at y raffl werthfawr. Diolchir yn gynnes i Angharad Tomlinson am gaffael rheini – roedd yna wobrau gwerth chweil i'w hennill. Barn pawb ddaeth ynghyd oedd ein bod wedi cael noson i'w chofio. Unwaith y derbynnir y wybodaeth am yr elw a wnaed ar y noson, fe'ch hysbysir o hynny.

Although the weather had some effect on the proceedings, we had a very successful Summer Fayre last Friday. Many thanks to everyone who came together for the occasion, and to everyone who contributed in any way towards the success of the event. We must mention the generous donations received from businesses towards the wonderful raffle. Angharad Tomlinson is thanked for obtaining these – there were really worthwhile prizes on offer. Everyone who came together were of the opinion that it had been a worthwhile occasion. Once we receive the information regarding the profit made on the evening, it will be passed on to you.

GWIBDEITHIAU BLWYDDYN 1 A 2 – *YEARS 1 AND 2 TRIPS.*

Mae'r disgyblion hyn wedi bod yn brysur iawn yr wythnos hon. Cawsant amser da ddydd Llun pan aethant i weld perfformiad o sioe Rala Rwdins yn Theatr Y Rhyl ac i gael picnic wedyn. Bnawn Mercher wedyn, aethant i gymryd rhan yn Jambori Martyn Geraint yn Neuadd Ddinesig Cei Connah yng nghwmni disgyblion o ysgolion Cymraeg eraill y sir. Bu i'r disgyblion hyn fwynhau'r ddau ddigwyddiad yn fawr iawn.

These pupils have been very busy this week. They had a great time on Monday when they went to see a performance of the Rala Rwdins show at the Theatre in Rhyl, and to have a picnic afterwards. On Wednesday afternoon, they participated in the Jamboree with Martyn Geraint at the Connah's Quay Civic Hall together with pupils from the county's other Welsh schools. The pupils very much enjoyed both these events.

PICNIC MEITHRIN 2019-2020 *NURSERY PICNIC.*

Daeth nifer dda iawn o'r plant bach newydd fydd yn dechrau yn y Meithrin ym mis Medi, gyda'u rhieni i fwynhau picnic yn yr ysgol amser cinio ddydd Mercher. Roedd yn hyfryd eu gweld, ac edrychir ymlaen at eu cwmni eto yr wythnos nesaf mewn digwyddiad cyffelyb. Roedd yn braf gallu rhannu cacen i bawb i ddynodi pen blwydd Sali Mali yn hanner cant ar y diwrnod hwnnw. Gyda llaw, mae 43 o ddisgyblion wedi'u cofrestru ar gyfer ein Meithrin ym mis Medi.

A large number of the children who will be starting here in the Nursery in September, came with their parents, to enjoy a picnic in school at lunch time on Wednesday. It was lovely to

see them, and we shall look forward to their company again next week in another picnic. It was lovely to be able to distribute cakes to everyone to celebrate Sali Mali's birthday, who was fifty on the day. By the way, 43 pupils have been registered for our Nursery in September.

PNAWN FFARWELIO Â BLWYDDYN 6 – *YEAR 6 FAREWELL AFTERNOON.*

Daeth tyrfa dda iawn o rieni a pherthnasau i Bnawn Ffarwelio â Blwyddyn 6 bnawn Mercher, pan gafwyd amrywiaeth o eitemau gan bob un disgybl ym Mlwyddyn 6. Ar ddiwedd y pnawn, cyflwynwyd geiriadur, trwy garedigrwydd Ffrindiau Glanrafon, a thystysgrif i bob un o'r 32 disgybl a fydd yn trosglwyddo i addysg uwchradd ym mis Medi. Bu'n bnawn hyfryd o rannu atgofion am y blynyddoedd y mae'r plant hyn wedi bod yn ddisgyblion yn Ysgol Glanrafon.

A large audience of parents and relatives came along to the Year 6 Farewell Afternoon on Wednesday afternoon, when a variety of performances were given by each of the Year 6 pupils. At the end of the afternoon, a dictionary, donated by the Friends of Glanrafon, and a certificate were presented to each of the 32 pupils who will be transferring to secondary education in September. It was a lovely afternoon and an opportunity to share these children's memories over the years they've been pupils at Ysgol Glanrafon.

GWEITHDY CELF – *ART WORKSHOP.*

Mwynhaodd disgyblion Blwyddyn 6 weithdy celf creadigol dan arweiniad yr artist Tikki Lowe fore ddoe. Bu'n brofiad unigryw a gwahanol i'r disgyblion hyn, ac yn sicr, bu'n brofiad arbennig iawn iddynt oll.

Year 6 pupils enjoyed a creative arts workshop led by the artist Tikki Lowe yesterday morning. It was an unique opportunity for these pupils, and undoubtedly, it was indeed an enriching experience for them all.

GWEITHGAREDDAU PONTIO BLWYDDYN 4 – *YEAR 4 TRANSITION ACTIVITIES.*

Heddiw, mae disgyblion Blwyddyn 4 yr ysgol yn treulio'r dydd yn Ysgol Maes Garmon yn gwneud gwahanol weithgareddau fel rhan o broses drosglwyddo'r ysgol honno. Mae diwrnod o'r fath yn gyfle gwych i'r disgyblion hyn wneud gwahanol weithgareddau amrywiol ac i ddechrau ymgyfarwyddo ag addysg uwchradd. Diolchir i Ysgol Maes Garmon am ddarparu cyfleoedd fel hyn ar gyfer disgyblion ysgolion Cymraeg Sir y Fflint.

Today, the school's Year 4 pupils are spending the day at Ysgol Maes Garmon, doing various activities as part of that school's transition process. A day such as this gives the pupils an opportunity to carry out a variety of activities and to begin to familiarise themselves with secondary education. Ysgol Maes Garmon is thanked for such provision for the pupils of the Flintshire Welsh schools.

MABOLGAMPAU – *SPORTS.*

Ymddiheurir o waelod calon am orfod gohirio'r mabolgampau ar sawl achlysur yn barod – ond mae anwadalwch y tywydd eleni yn ei gwneud bron yn amhosib i ni drefnu ymlaen llaw.

Rwyn falch o gael dweud ein bod wedi llwyddo i gynnal mabolgampau Uned y Blynyddoedd Cynnar y bore 'ma, a chynhelir yr un ar gyfer Blynyddoedd 1 a 2 y pnawn 'ma. Nid oes dyddiad wedi'i bennu eto ar gyfer mabolgampau Blwyddyn 3,4,5 a 6, a hyd nes y bydd sicrwydd am gyfnod o dywydd braf eto, mae posibilrwydd y bydd rhain yn symud yn nes i ddiwedd y tymor.

Cawsom wybod bod Mabolgampau'r Urdd wedi'u gohirio ar gyfer dydd Llun hefyd.

We apologise again for having to postpone the sports on a few occasions already – but the uncertainty regarding the weather makes it virtually impossible to arrange before hand.

It's good to be able to report that the Early Years Unit's sports were held this morning, and the one for Years 1 and 2 will be held this afternoon. No date has been re-arranged for the Years 3,4,5 and 6 pupils, and until there will be some certainty for good weather, there is a possibility that these will be moved on to the end of the term.

We have been informed thathe Urdd Sports have been postponed for Monday.

DIGWYDDIADAU'R WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S EVENTS.*

25.06.19 5.30 p.m. – Sesiwn cyflwyno gwybodaeth i rieni Derbyn 2019-2020 – *Information sharing session for 2019-2020 Reception parents.*

25.06.19 6 p.m. – Sesiwn cyflwyno gwybodaeth i rieni Meithrin 2019-2020 – *Information sharing session for 2019-2020 Nursery parents.*

27.06.19 Picnic i ddisgyblion Meithrin 2019-2020 – *Picnic for the 2019-2020 Nursery pupils.*

27.06.19 Adroddiadau blynyddol y disgyblion allan i'r rhieni – *Pupils' annual reports sent out to parents.*

28.06.19 Twrnament pêl droed Ron Bishop *football tournament.*

28.06.19 Treiathlon Gwaith Dur TATA *Steel Triathlon.*

BWYDLEN YR WYTHNOS NESAF – *NEXT WEEK'S MENU*

WYTHNOS/*WEEK* 2